


**Tasg 2**

## Cwrs golff troed

Fel arfer (ond dim bob amser!), ar gwrs golff troed mae:



9 twll  
coed  
dŵr  
bryniau bach

1. Ar ddarn o bapur, gwnewch gynllun o gae'r ysgol neu'r iard.
2. Nawr, cynlluniwch gwrs golff troed ar y cae neu ar yr iard.
3. Ychwanegwch beth rydych chi eisiau ar y cwrs golff troed.
4. Ysgrifennwch baragraff i ddisgrifio'r cwrs golff troed.
5. Disgrifiwch y cwrs golff troed i'ch partner chi.
6. Gwnewch boster / daflen i ddweud:
  - ble mae'r cwrs golff troed
  - pryd mae'r cwrs golff troed ar agor
  - pwy sy'n cael chwarae yno (plant? / oedolion?)
  - faint ydy'r pris
  - gwybodaeth arall, e.e. mae'n bosib trefnu parti pen-blwydd yn y cwrs golff yma.



## Geirfa

twll	hole	ychwanegu (at)	(to) add (to)
cynllun	plan, design	taflen	leaflet
cynllunio	(to) plan, design	cael	(to) be allowed to
trefnu	(to) organise		

